**Cefnogi rhifedd plant**

Bydd archwilio a chyfuno rhai o'r pwyntiau allweddol yn yr adran hon o gymorth wrth ichi esblygu'ch lle mewn ffordd ymatebol dros amser. Ystyriwch a defnyddiwch y syniadau yma i sbarduno cwestiynau, myfyrio a hefyd ffordd newydd o feddwl wrth i chi sylwi'n barhaus ac ystyried pa mor dda y mae eich amgylchedd yn diwallu anghenion plant dan eich gofal.

Wrth i chi archwilio'r syniadau yn yr adnodd hwn, ystyriwch ddogfennu'r broses. Byddai hwn yn gofnod defnyddiol iawn o pam rydych chi'n gwneud y newidiadau rydych chi'n eu gwneud ac wrth gwrs yr effaith maen nhw'n ei chael. Mae bob amser yn dda myfyrio ar y broses dros amser ac yn ddarlun defnyddiol i'w rannu ag eraill.

Yn dilyn cyflenwi cyfres gweminar 'Rhifedd yn y blynyddoedd cynnar' PACEY Cymru mewn partneriaeth â Rhian Davies, Athrawes Ymgynghorol Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion, rydym wedi datblygu'r adnodd hwn i'ch cefnogi chi wrth ystyried rôl yr amgylchedd wrth gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd plant.

Mae rhifedd yn rhan annatod o fywydau bob dydd plant. Y gallu i weld a defnyddio cysyniadau mathemategol ym mhob agwedd ar fywyd ydyw. Er mwyn helpu i wneud cysyniadau rhifedd yn fwy perthnasol i blant, ac i'w helpu i ddatblygu hyder a chwilfrydedd dylem gynnig amgylcheddau chwareus iddynt sy'n gyfoethog o ran rhifedd.

Mae plant yn naturiol chwilfrydig ac yn datblygu dealltwriaeth o iaith, cysyniadau a sgiliau mathemategol trwy chwarae aml-synhwyraidd a phrofiadau dilys. Mae sefydlu sgiliau rhifiadol da yn helpu plant i wneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch, dehongli sefyllfa, a datrys problemau bob dydd.



**Didoli a grwpio**

Mae didoli, rhannu a grwpio yn rhan hanfodol o ddatblygiad cyfannol plentyn. Mae'n aml yn reddfol a bydd yn cefnogi'r plentyn i ddeall trefn a gwneud cysylltiadau.

Didoli yw'r gallu i adnabod tebygolrwyddau a gwahaniaethau ymhlith set o wrthrychau a'u grwpio yn unol â hynny ac mae'n un o'r sgiliau cyntaf y gall plant eu meistroli. Trwy gynnig amgylchedd sy'n gyfoethog o ran rhifedd, mae hyn yn helpu plant i ddatblygu eu:

- Datblygiad gwybyddol
- Sgiliau mathemategol
- Sgiliau canfyddiad gweledol
- Sgiliau bywyd bob dydd
- Datblygiad iaith

Mae chwarae rhannau rhydd yn caniatáu i blant archwilio ac edrych am debygolrwyddau a gwahaniaethau mewn ystod o wrthrychau, gan gymharu meintiau, lliw a gweadau.

Mae tasgau bob dydd yn cynnwys didoli eitemau, mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gosod y nifer gywir o gyllyll a ffyrc ar y bwrdd amser bwyd a threfnu'r amgylchedd wrth dacluso. Mae plant wrth eu bodd yn grwpio eitemau yn ôl lliw, math, maint a dylid eu hannog i greu eu categorïau eu hunain.

Mae cyfleoedd i ddosbarthu eitemau neu adnoddau yn digwydd yn naturiol ac mae'n rhan hanfodol o gyflwyniad plant i raniad a lluosiad syml. Gall amser bwyd gynnig cyfleoedd, er enghraifft gall rhannu jwg o ddŵr ddefnyddio sgiliau rhifedd a geirfa gysylltiedig.

**Cyfrif a deall rhifau**

Mae plant angen cyfleoedd i gyfrif ac adnabod rhifau. Gall y rhain ddechrau gyda threfnau dyddiol, er enghraifft wrth wisgo cot a chyfrif y botymau.

Serch hynny, mae natur yn cynnig profiadau dysgu cyfareddol, hwyliog a dilys, lle gall sgiliau rhifedd cynnar ffynnu. Mae'n cynnig amgylchedd hamddenol a phleserus gyda chyfleoedd dysgu ymarferol. Gall y raddfa'n aml fod yn fwy yn yr awyr agored, a bydd yn aml yn ychwanegu elfen synhwyraidd i'r chwarae a'r dysgu.

- Mae ceginau mwd yn caniatáu cyfleoedd i gyfrif eitemau megis llwyau, cwpanau, a chynhwysion. Mae defnyddio cwpanau mesur yn cynnig cyfaint ac ansawdd a

chymharu symiau. Yn aml gall hyn fod yn amser da i gyflwyno geirfa rifiadol megis mwy, llai, trwm a golau.

- Gall plant ddefnyddio potiau a phadelli ar gyfer casglu'r deunyddiau naturiol y maen nhw'n eu canfod, er enghraifft moch coed a choncyrs. Gall y casgliadau hyn fod yn ffordd o helpu plant i ddatblygu eu sgiliau cyfrif, adnabod patrymau a graddfa ac i addysgu geirfa leoliadol i blant e.e. ar, y tu ôl, wrth ymyl, i'r chwith, i'r dde i enwi ychydig.

**Siapiau a phatrymau**

Mae siapiau a phatrymau ym mhobman ac mae angen cyfleodd ar blant i adnabod y rhain. Mae patrymau natur fel cymesuredd dail neu droellau cregyn, yn cipio dychymyg plant sy'n aml yn gweld hyfrydwch, cyfaredd a rhyfeddod mewn digwyddiadau bob dydd. Mae plant yn archwilio'r elfennau hyn yn naturiol, gan ofyn cwestiynau a cheisio atebion, sy'n hyrwyddo ffordd o feddwl ac ymholi mathemategol.

- Mae creu patrymau gyda darnau rhydd yn helpu plant i adnabod a rhagfynegi dilyniannau, sy'n agwedd allweddol o ffordd o feddwl mathemategol.
- Mae helfa drysor yn ffordd o gael plant i sylwi ar wahanol siapiau yn eu hamgylchedd. Yn yr awyr agored gall y siapiau hyn fod ar raddfa lawer yn fwy ac ar amryw lefelau, a all ychwanegu at chwilfrydedd ac archwiliad.
- Mae eitemau o amryw siapiau a meintiau yn enwedig darnau rhydd, yn cynnig cyfleoedd am oriau o chwarae wedi'i ymgysylltu di-dor gan ganiatáu i'r plant ddatblygu ystod o sgiliau rhifiadol. Mae plant yn mwynhau ceisio datrys sut y mae gwahanol siapiau yn ffitio â'i gilydd, gallai hyn gynnwys hongian cylchoedd llenni ar goeden mygiau, allweddi mewn cloeon neu hyd yn oed jig-sos.
- Mae adnabod a chreu patrymau yn helpu plant i ragfynegi beth ddaw nesaf, sy'n sgil datrys problemau sylfaenol. Er enghraifft, os ydynt yn gwneud mwclis o leiniau yn ailadrodd patrwm lliw, maen nhw'n defnyddio eu dealltwriaeth o batrymau i barhau â'r dilyniant.
- Gall creu patrymau gyda deunyddiau naturiol fel dail, cerrig, a ffyn fod yn gyfle ar gyfer sgwrs ac archwilio cyfoethog.

Fel yr oedolyn sy'n galluogi, gallwn gynnig gwahoddiadau i chwarae. Mae'r rhain yn set o ddeunyddiau sy'n annog plant i archwilio, creu, a chwarae mewn modd heb gyfarwyddyd, gan brocio eu chwilfrydedd. Dilyn diddordebau'r plentyn gan wneud dysgu mathemateg yn fwy diddorol. Mae patrymau a siapiau yn helpu plant i weld perthnasedd rhifedd yn y byd go iawn.

**Datrys problemau**

Problemau yw pethau nad ydych chi'n gwybod sut i'w datrys. Yn y blynyddoedd cynnar gall hyd yn oed gweithgareddau syml iawn fod yn broblem i un plentyn ond nid i blentyn arall. Mae darpariaeth o ansawdd yn annog plant i osod eu problemau eu hunain, gydag ystod o adnoddau hyblyg i ganiatáu ar gyfer datrysiadau ymarferol. Mae'n bwysig cofio os dywedir wrth y plant beth yw'r dull neu'r datrysiad, nid ydynt yn datrys problemau ac felly nid ydynt yn herio eu ffordd o feddwl.

- Mae chwarae blociau yn un ffordd o gefnogi rhifedd a datrys problemau. Mae'n caniatáu iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth ofodol a rhesymu, gan drefnu blociau mewn ffurfweddau gwahanol ac mae hefyd yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sut y mae gwrthrychau yn ffitio â'i gilydd. Mae'n cefnogi ffordd o feddwl critigol megis sut i gydbwyso blociau a chreu strwythurau sefydlog. Mae chwarae blociau yn caniatáu i blant arbrofi â dyluniadau unigryw, gwerthuso eu syniadau ac yn aml gall ddatblygu gallu plant i ddelweddu perthnasau yn weledol ac archwilio cymesuredd.

- Gall profiadau sy'n cysylltu â'r tywydd a garddio gynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer dysgu a llawer o senarios datrys problemau. Mae'r profiadau diddorol hyn yn caniatáu i'r plant arwain wrth greu archwiliad a datrys problemau. Faint o bridd sydd ei angen arnynt i lenwi pot planhigyn? Pa mor dal y mae'r blodyn haul wedi tyfu? Pa mor ddwfn ydym yn plannu'r hedyn? Faint o ddŵr sydd ei angen ar y planhigyn?

- Mae plant angen cyfleoedd i archwilio gofod a datrys problemau er enghraifft: A fydd y gwrthrych hwn yn ffitio yn y gofod hwn? Sut y mae'r siapiau hyn yn ffitio â'i gilydd? Mae digon o gyfleoedd am hyn yn ystod diwrnod y plentyn.

**Cofiwch!**

Mae amgylcheddau cyfoethog o ran rhifedd fel y nodir yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, yn helpu plant i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a all ddefnyddio rhifau yn effeithiol mewn cyd-destun gwahanol.
- gyfranwyr creadigol, mentrus sy'n meddwl yn greadigol i ailfframio a datrys problemau.
- ddinasyddion gwybodus yn foesegol sy'n canfod, gwerthuso, a defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn.
- unigolion hyderus, iach sy'n wynebu ac yn goresgyn her ac sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i reoli bywyd bob dydd mor annibynnol â phosibl.

Yr unig gyfyngiad i ddarparu amgylchedd cyfoethog o ran rhifedd yw'ch dychymyg. Meddyliwch am y peth fel mwy na rhifau a chyfrif a pheidiwch â bod ofn archwilio gyda'ch gilydd.

Mae yna lawer i'w ystyried yn yr adran hon. Byddwch eisoes yn gwneud peth o'r hyn sydd wedi cael sylw. Os oes unrhyw newidiadau rydych chi eisiau eu gwneud, peidiwch â theimlo bod angen i chi wneud popeth ar unwaith. Gall gormod o newid gythruddo plant ac mae angen i chi hefyd gadw pethau'n ymarferol i chi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dathlu ac yn rhannu'r pethau sy'n mynd yn dda a'r effaith rydych chi'n sylwi arni.

**Myfyriwch!**

- Sylwch ar y lleoedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio rhyw lawer yn eich lleoliad. Pam mae hyn? Sut allech chi eu datblygu? Weithiau mae newid neu ychwanegiad syml i le yn ddigon i ail-ysbrydoli defnydd a diddordeb.
- Ystyriwch y ffordd y mae eich gofod yn cefnogi plant unigol dan eich gofal a'u hanghenion. Ydych chi'n cynnig graddfeydd lle? Sut gallai hyn helpu'ch plant i archwilio mewn ffordd â mwy o ffocws?

**Darllen pellach**

- Mathemateg yn yr awyr agored
- Mathemateg ceginau mwd
- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir - Hwb (llyw.cymru)
- Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir - Hwb (llyw.cymru)
- CEY smart - y gêm rhifau (adnoddau aelodau PACEY)
- Mathemateg gynnar - PACEY